**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 09 Mehefin 2026 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Mehefin 2026 |

**PWNC**

Eitem 6: YSGOL Y GARREG - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol sef - "Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026," yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 10fed Chwefror 2026, bu i'r Cabinet gytuno i gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig i gau Ysgol y Garreg yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Oherwydd bod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Y Garreg (CYBLD Ionawr 2026), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cyhoeddi'r rhybudd statudol.

Pwpas yr adroddiad yw i adrodd yn ôl yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Statudol, cyn i'r Cabinet gadarnhau yn derfynol ar y cynnig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant personol gan y Cyng June Jones mewn perthynas ag eitem 6 gan ei bod yn Lywodraethwr yn yr Ysgol. Bu i Cyng. June Jones eistedd fel Aelod Lleol ar gyfer yr eitem hon, ac o ganlyniad nid oedd ganddi bleidlais ar y mater.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Mehefin 2026 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Mehefin 2026 |

## PWNC

Eitem 7: POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a mabwysiadwyd Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer ei gyflwyno fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i ysgolion ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn rhan o strategaeth ehangach gan y Cyngor, i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau ieithyddol cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n amserol diweddaru Polisi Iaith Addysg presennol Gwynedd, er mwyn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol gyfredol y sir a darparu cyfeiriad a chefnogaeth glir i ysgolion.

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol sydd wedi'i lunio yn dilyn proses estynedig a chynhwysfawr o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Argymhelliad cryf y Cyngor yw y dylai pob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn erbyn Medi 2026.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.